

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 28ain o Dachwedd 2018

LLEOLIAD EGLWYS Sant Pedr Penrhos am 7.00pm.

Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31-10-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol Dim wedi ei dderbyn hyd yma

Ceisiadau Nawdd Dim wedi ei dderbyn hyd yma

Taliadau gytunwyd heb fod ar Agenda Hydref

Tal dan Pendefyniad 47 I R P W £200.00

Tal symud dodrefn Uned 15 i'r Capel £100.00

Taliadau angen sylw

D W Lewis Torri Mis Tachwedd £320.00

Cyflog Mis 8 Hydref £443.00

HMRC Mis 8 £110.80

Lleng Brydeinig 2 Dorch Sul y Cofio £ 40.00

Gas Safe Profion Uned 15 £ 60.00

Snowdonia Fire Protection Profion Uned 15 £143.76

G Williams (tyrchod) Dal tyrchod (amcanbris £150)

Derbynebiau Dim drwy law

I'w trafod hefyd Damwain Giat y Fynwent

Amcanbrizio tarmacio Llwybrau y Fynwent

Gosod Cyllideb 2019-20

Ymateb Gamlins i brydlesi y ganolfan bresennol a'r newydd

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 31ain o Hydref 2018 Yng Nghanolfan Gymunedol Glasinfryn, am 7.00pm.

Presennol Cyng C. E. Hughes - J. Pierce -, L James - D Jones-Morris a B Jones

Ymddiheuriadau Cyng D W Jones,

Cadeirwyd gan Cyng L James

Cod Ymddygiad Dim i'w ddatgan

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-09-2018

Derbynwyd y cofnodion fel Cofnod cywir ar gynnig Cyng C E Hughes ag a eilwyd gan Cyng B Jones

Materion yn codi o'r cofnodion Dim mater nad oedd wedi ei gynnwys o fewn yr agenda

Adroddiad Ariannol Dosbarthwyd mantolen ariannol (derbynebion a gwariant) am Mis Hydref oedd yn dangos fod £45,332.08 yn y cyfrif ond ddiwedd busnes 30-10-18 Dosbarthwyd mantolen banc yn dangos balans o £44,717.08 yn y banc am fod ein Incwm am y mis o £615.00 ddim yn ymddangos er wedi eu cyflwyno.

Dim ad-daliad wedi dod o'r TAW ond nodyn wedi ei dderbyn y bydd ad-daliad NDR o Cyngor Gwynedd

Archwylwyr Allannol Dim wedi ei dderbyn hyd yma

Ceisiadau Nawdd Goriad wedi gwneud cais am Rodd eto eleni ond yn anffodus wedi atodi Manolen Ariannol 2016-17

Argymell £300.00 eto eleni ond y Clrc i lythyru i ofyn am Fantolen ariannol 2017-18

Taliadau angen sylw Argymell talu yr isod a hefyd ychwanegu talu Cyngor Gwynedd £160.00 + Taw am eu gwaith fel Archwylwyr mewnol

D W Lewis	Torri Mis Hydref	£690.00	Cyflog	Mis 7 Medi	£443.00
HMRC	Mis 7	£110.80	Gofalwraig	Ebrill i Hydref	£150.00
Anghenion Swyddfa	Manion	£ 50.92	Gwilym Hughes	Torri Llwybrau Pentir	£900.00
Eric Jones Paentwr	Paentio'r Swyddfa	£375.00	Unllais	Hyfforddiant	£ 40.00
Cyngor Gwynedd	Archwyllo Mewnol	£192.00			

Derbynebion Tal am 2 angladd £540.00

Swyddfa Parc Menai Yn sgil eich penderfyniad i ymadael o'r swyddfa trefnodd y Clerc

Profion Y Swyddfa i gyd wedi eu cwblhau ond disgwyl tystysgrif Trydannol a Tan

Gwagio'r Swyddfa Trefnodd y Clerc i wagio'r holl asedau oedd yn y Swyddfa i'r Capel bach dros dro hyd nes y gallwn sicrhau storfa ddiogel a sych. Cafodd gymorth gan ei fab Gerallt Jones i'w llwytho a'i cario. Trefnwyd y bydd y Swyddfa yn cael ei phaentio gan Mr Eric W Jones o Penisarwaun oedd wedi anfon pris atom ag a dderbynwyd, yn electonig, gan y Cynghorwyr

Cynnigion i Storio am oddeutu y 2 flynedd nesaf Adroddodd y Clerc iddo ymweld a storfa Canolfan Penrhos yn gyntaf gan mae eiddo Cyngor Pentir ydi'r lleoliad hwnnw. Nid oedd y storfa honno ddigon mawr i storio popeth ynddi.

Ysgrifennwyd llythyr at Neuadd bentref Rhiwlas i holi os byddai un o'i storfeydd nhw ar gael dros gyfnod o amser. Mae'n storfa ddigon mawr i gymeryd popeth ag yn sych. Cafwyd cynnig telerau ganddynt o £40.00 y Mis. **Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn derbyn y telerau hynny**

Damwain Giat y Fynwent Fore Mercher 17eg o Hydref cafwyd galwad fod cerbyd wedi chwalu postyn cerrig giat fawr yr hen fynwent ynghyd a dinistrió'r giat fochyn. 'Roedd y cerbyd naill ai wedi mynd ar dán neu wedi ei losgi.

Trefnodd y Clerc fod y lle yn cael ei wneud yn diogel – neu mor ddiogel a phosib drwy alw adeiladwr lleo allan. Trefnwyd i gario'r giat i mewn i'r Capel o ran diogelwch

Cysylltwyd gyda'r Gwasanaeth Tan ag Achub gan ei bod wedi ymweld a'r safle

Cysylltwyd a'r Heddlu

Cysylltwyd a'n Cwmni Yswiriant

Yn amlwg ni fydd yn bosib adnewyddu y safle yn sydyn cymaint yw'r difrod

Mae'r Capel wedi ei gofrestru gyda CADW a'r Cyng C E Hughes wedi holi os oedd y giat hefyd yn rhan o'r cofrestru? Y cyngor gafwyd oedd i geisio ei adfer yn ol i'r ffurf gwreiddiol.

Cyng am gadw mewn cyswllt a Eryl Williams yn CADW.

Llythyr Cyngor Gwynedd – Dosbarthwyd gopi o lythyr dderbynwyd o Adran Trysorydd Cyngor Gwynedd yn cadarnhau cefnogaeth, heb fynd i fanlyu, ynglyn a benthyg arian i ariannu y Ganolfan Gymunedol newydd os bydd datblygiad Ysgol Y Faenol yn cael ei wireddu.

Ymateb Gamlins i brydlesi y ganolfan bresennol a'r newydd

Yn dilyn derbyn drafft electronig o prydles 3 blynedd am y ganolfan bresennol a drafft o brydles 99 mlynedd am y Ganolfan arfaethedig newydd 'roedd y Clerc wedi eu pasio ymlaen at ei Cyfreithwyr am eu sylwadau. Dosbarthwyd gopiau o ymateb Gamlins.

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Dim diweddariad onibai fod y cynnod ymgynghori wedi dod i ben. Diolchwyd i'r rhai oedd wedi bod yn bresennol yn ystod y diwrnodau agored

Materion y Clerc

Atgoffa mae'r unig brosiect drafodwyd wrth osod ein cyllideb am 2017-18 oedd ail-wynebu llwybrau y fynwent. Ar y pryd sonwyd am fenthycia arian ond gan fod bwriad i ofyn am fenthyciad sylweddol i Canolfan Penrhos ag arian wrth gefn bellach oherwydd arbedion o'r Swyddfa argymhellwyd i'r Clerc unwaith eto edrych am brisiau eto

Gofynnodd y Clerc am i bawb ystyried ble oedd peiriannau Diffibs yn yr ardal gan ei fod wedi cael cais i fapio eu lleoliad ar gyfer cofrestr genedlaethol

Trafodwyd y dylid ystyried ariannu a gosod Diffibs yn ein Cymunedau

Materion Cyngorwyr

Cyng D JM Holi os oedd unrhyw ddatblygiad i osod hysbysfwrdd wrth Ysbyty Gwynedd

Clerc yn cadarnhau fod y gwaith wedi ei roi i Mr D E Williams Llithfaen a rhif Ffon y cyswllt yn Safle

Ysbyty Gwynedd oedd angen cysylltu hefo cyn cychwyn y gwaith. **Clerc i atgoffa DEW eto**

Cyng J P Cynnig fod Cyngor Pentir yn cydnabod yn ariannol y gwaith oedd Cyng L James a'r Clerc wedi ei wneud ar ran y Cyngor yn ddiweddar

Cyng L James mewn perthynas a threfnu y cyflwyniad i'r Cyngor ar opsiynnau Ysgol Y Faenol / Canolfan Gymunedol a'r gwaith wnaeth ar y pamphled i'r ymgynghoriad.

Y Clerc wedi ymgymeryd a gwagio a symud yr offer o'r Swyddfa

Nid oedd yr un o'r ddau yn cytuno a'i chynnig tra'r ychwanegodd y Clerc ei fod yn gwerthfawrogi'r gwaith ychwanegol mae'r Cyng James yn ei wneud ag y dylid talu treulia iddi.

Cadw oriau oedd y Cyngor wedi gofyn iddo fo ei wneud tan diwedd y flwyddyn ond hefyd na fyddai wedi gallu gwneud y cyfan heblaw am y cymorth gafodd gan ei fab

Anfonwyd Cyng James allan o'r ystafell

Cafodd swm o £200 traulia ei gynnig a'i eilio i'r Cyng James

Cafodd swm o £100 ei gynnig a'i eilio fel cydnabyddiaeth am ei waith i Gerallt Jones

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00